# Gwybodaeth i athrawon

## Ysbrydoli'r Ymdrech:
## Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Yr Artistiaid



Hunanbortread
Augustus John
(1878-1961)
(Amgueddfa Cymru)

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/

## Muirhead Bone (1876-1953)

- Ganwyd Bone yn Glasgow ac astudiodd yng Ngholeg Celf Glasgow.
- Ymgartrefodd yn Llundain ym 1901.
- Roedd yn artist rhyfel swyddogol rhwng 1916 a 1918, ac ef oedd artist swyddogol y Morlys rhwng 1939 a 1946.
- Cafodd ei urddo'n farchog ym 1937.

## Frank Brangwyn (1867-1956)

- Ganwyd Brangwyn yn Brugge, ond symudodd yn ôl i Brydain gyda'i deulu yn blentyn ifanc.
- Ni chafodd fawr o addysg gelfyddydol ffurfiol, eto cafodd lwyddiant gyda phaentio olew a dyfrlliw, printio, pensaernïaeth a dylunio.
- Nid oedd yn artist rhyfel swyddogol, ond cynhyrchodd dros 80 o bosteri a dyluniadau ar gyfer y Stampiau Bond Rhyfel. Roedd yn aelod o Glwb Senefelder, a oedd yn hyrwyddo printio gwaith yn bersonol. Byddai'n printio'i broflenni ei hun ac yn darlunio'n uniongyrchol ar y garreg yn hytrach na defnyddio papur troslunio.

## Syr William Nicholson 1872-1949

- Ganwyd Nicholson yn Newark-on-Trent.
- Astudiodd yn Ysgol Herkomer, Bushey, ac yna yn yr Académie Julian, Paris. Cafodd flas ar sawl cyfrwng gwahanol, gan gynnwys paentio ac engrafu.
- Mae'n bennaf enwog am ei waith arloesol yn dylunio posteri ar y cyd â'i frawd-yng-nghyfraith James Pryde dan yr enw "J. and W. Beggerstaff". Datblygodd yn y pen draw yn baentiwr portreadau a bywluniau llwyddiannus.

## Edmund Dulac (1882-1953)

- Ganwyd Dulac yn Toulouse, Ffrainc.
- Astudiodd y gyfraith cyn troi at gelf.
- Symudodd i Brydain ym 1904 a dod yn adnabyddus fel darlunydd llyfrau cain.
- Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gwnaeth ddarluniau ar gyfer sawl rhodd-lyfr a grëwyd i godi arian at y rhyfel, a chafodd ei gyflogi gan y Weinyddiaeth Wybodaeth i greu propaganda darluniadol.

## Maurice Greiffenhagen (1862-1931)

- Un o dras Baltig-Almaenig oedd Greiffenhagen, a anwyd yn Llundain.
- Astudiodd yn Ysgolion yr Academi Frenhinol, gan arddangos ei waith yno o 1884 ymlaen.
- Ar ôl ennill bywoliaeth fel darlunydd, trodd ym 1900 at beintio portreadau.
- Bu'n brifathro Adran Bywlunio Ysgol Gelf Glasgow rhwng 1906 a 1929.

## A. S. Hartrick (1864-1950)

- Ganwyd yr artist a'r darlunydd Hartrick yn India a'i fagu yn yr Alban.
- Astudiodd feddygaeth cyn troi at gelf a mynychu Ysgol Gelf Slade, Llundain, ac ysgolion celf Paris, gan arddangos yn Salon Paris 1887.
- Roedd yn un o sylfaenwyr Clwb Senefelder ym 1909. Trodd ei law at ddysgu hefyd, gan gyhoeddi'r gyfrol ganllaw Lithography As A Fine Art ym 1932.

## F. Ernest Jackson (1872-1945)

- Yn fab i argraffydd, aeth Jackson yn brentis i gwmni lithograffi yn Leeds cyn mynd i astudio ym Mharis.
- Bu'n diwtor Darlunio yn Ysgol yr Academi Frenhinol rhwng 1921 a 1939 ac yn Bennaeth Ysgol Byam Shaw rhwng 1926 a 1940.
- Roedd yn aelod o Glwb Senefelder ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ef oedd yn gyfrifol am lithograffi propaganda ar gyfer y Weinyddiaeth Wybodaeth.
- Roedd yn allweddol i broject *The Great War: Britain's Efforts and Ideals*, ac yn ddolen gyswllt i'r holl artistiaid a gyfrannodd at y broses brintio.

## Eric Kennington (1888-1960)

- Ganwyd Kennington yn Llundain, yn fab i arlunydd portreadau blaenllaw.
- Astudiodd yn Ysgol Gelf Sant Paul, Ysgol Gelf Lambeth ac Ysgol City and Guilds.
- Roedd yn artist rhyfel swyddogol rhwng 1917 a 1919 a rhwng 1940 a 1943, lle bu'n portreadu morwyr ac awyrenwyr.

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/

## Augustus John (1878-1961)

- Brodor o Ddinbych-y-pysgod oedd Augustus John, ac astudiodd yn Ysgol Gelf Slade rhwng 1894 a 1898. Hyd yn oed cyn iddo raddio, cai ei gydnabod yn un o ddarlunwyr mwyaf dawnus ei genhedlaeth.

- Erbyn y 1920au, ef oedd artist portreadau mwyaf blaenllaw ei ddydd.

- Cafodd ei ethol i'r Academi Frenhinol ym 1928.

- Yn ogystal â'r llwyddiannau hyn, bu'n byw bywyd yr artist bohemaidd i'r eithaf, diolch yn rhannol i'w ddiddordeb yn niwylliant y Romani.

## Gerald Moira (1867-1959)

- Ganwyd Moira yn Llundain i rieni o Bortiwgal.

- Mae'n fwyaf adnabyddus am beintio murluniau. Bu'n peintio tirluniau a ffigyrau hefyd, a bu'n gweithio fel lithograffydd.

- Astudiodd yn Ysgolion yr Academi Frenhinol ac yna ym Mharis, gan arddangos ei waith o 1891 ymlaen.

- Roedd yn un o aelodau gwreiddiol y Gymdeithas Bortreadau Genedlaethol ym 1911, ac yn bennaeth Coleg Celf Caeredin rhwng 1924 a 1932.

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/

## C. R. W. Nevinson (1889-1946)

- Ganwyd Nevinson yn Llundain, yn fab i'r newyddiadurwr a'r gohebydd rhyfel Henry Nevinson.
- Astudiodd yn Ysgol Gelf Slade ac ym Mharis ac astudiodd lithograffi am y tro cyntaf dan law Ernest Jackson ym 1912.
- Ar ddechrau'r rhyfel, gwirfoddolodd fel gyrrwr ambiwlans, profiad a gafodd effaith ddirdynnol arno. Fe'i penodwyd yn artist rhyfel swyddogol ym 1917.
- Mae'r printiau hyn yn dilyn y broses o adeiladu awyren, o greu a chydosod y darnau i'r hedfan yn y pen draw. Yn *Weldiwr Asetylen* a *Cydosod Darnau* gwelwn gyfraniad cynyddol menywod i'r diwydiant.
- Caiff ei ystyried yn un o artistiaid rhyfel enwoca'r cyfnod. Er cymaint dylanwad Ciwbiaeth a Dyfodoliaeth arno, mabwysiadodd arddull mwyfwy realistig yn raddol wrth iddo geisio cyfleu'r gwrthdaro.

## George Clausen (1852-1944)

- Derbyniodd Clausen hyfforddiant yn ysgolion celf South Kensington.
- Roedd yn un o sefydlwyr y New English Art Club a cafodd ei ethol yn Athro Paentio yr Academi Frenhinol ym 1904.
- Roedd yn artist uchel ei barch ar ddechrau'r rhyfel, ac fe'i penodwyd yn artist rhyfel swyddogol  ym 1917.

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/

## Charles Pears (1873-1958)

- Ganwyd Pears yn Pontefract, Swydd Efrog.
- Er ei lwyddiant fel darlunydd a lithograffydd, mae’n bennaf enwog am ei forluniau.
- Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd yn swyddog â chomisiwn gyda’r Môr-filwyr Brenhinol, a bu’n gweithio fel artist morol swyddogol rhwng 1914 a 1918, ac eto ym 1940.
- Cafodd yrfa lwyddiannus fel cynllunydd posteri, gan greu gweithiau i gwmnïau fel trenau tanddaearol Llundain.

## Charles Ricketts (1866-1931)

- Ganwyd Ricketts yn Genève, yn fab i Sais a Ffrances, a threuliodd ei blentyndod yn Ffrainc a’r Eidal.
- Ym 1882, daeth i Loegr i astudio yn Ysgol Gelf Lambeth lle cyfarfu â Charles Shannon (cyfrannwr arall at Delfrydau). Aeth y ddau ati i sefydlu a golygu The Dial gyda’i gilydd rhwng 1889 a 1897 a sefydlu gwasg Vale ym 1896.
- Trodd Ricketts wedyn at gerflunio a phaentio, a bu hefyd yn weithgar fel cynllunydd ar gyfer y theatr.

## William Rothenstein (1872-1945)

- Ganwyd Rothenstein yn Bradford.
- Astudiodd yn Ysgol Gelf Slade, Llundain a'r Académie Julian, Paris. Gweithiodd fel paentiwr, lithograffydd, darluniwr ac awdur.
- O 1891 ymlaen, dechreuodd artistiaid fel Degas a Pissaro ymddiddori yn ei waith.
- Cafodd ei benodi'n artist rhyfel swyddogol i fyddin Prydain yn Ffrainc rhwng 1917 a 1918, ac i fyddin feddiannol Canada ym 1919.
- Fe'i urddwyd yn farchog ym 1931.

## Charles Shannon (1863-1937)

- Roedd Shannon yn frodor o Quarrington, Swydd Lincoln.
- Mae'n bennaf enwog am ei bortreadau a'i ffigyrau, ond bu'n gweithio fel lithograffydd a darlunydd hefyd.
- Ym 1882 dechreuodd astudio engrafu coed yn Ysgol Gelf Lambeth lle cyfarfu â'i bartner oes, Charles Ricketts, ac aeth y ddau ati i sefydlu a golygu cylchgrawn The Dial a gwasg Vale gyda'i gilydd.
- Daeth ei yrfa lwyddiannus i ben ym 1929, wedi iddo ddioddef anafiadau yn disgyn o ben ysgol.

## Claude Shepperson (1867-1921)

- Ganwyd Shepperson yn Beckenham, Caint.
- Roedd yn artist amlgyfrwng llwyddiannus yn gweithio mewn dyfrlliw a phen ac inc, darluniau a lithograffau.
- Wedi rhoi'r gorau i astudio'r gyfraith, dilynodd gyrsiau celf yn Llundain a Pharis.
- Mae'n adnabyddus am y darluniau doniol a gyfrannodd i gylchgrawn *Punch* rhwng 1905 a 1920.

## Edmund J. Sullivan (1869-1933)

- Ganwyd y peintiwr, yr ysgythrwr a'r darlunydd Edmund Sullivan yn Llundain.
- Astudiodd gelf dan law ei dad yn Hastings. Ymunodd â staff wythnosolyn y *Graphic*, cyn gweithio'n ddiweddarach fel darlunydd i gylchgronau'r *Daily Graphic* a *Pall Mall Budget*.
- Cafodd yrfa hynod lwyddiannus wedyn yn darlunio llyfrau.

# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf Y Portffolio

Gwybodaeth i Athrawon



# Ysbrydoli’r Ymdrech: Printiau’r Rhyfel Byd Cyntaf

## Sut mae’r printiau’n cael eu harddangos?

Mae’r gyfres wedi’i rhannu’n ddwy ran:

**Delfrydau**: delweddau dramatig o bynciau symbolaidd fel *Buddugoliaeth Democratiaeth* ac *Ail-greu Gwlad Belg*

**Ymdrechion**: yn darlunio naw thema sef *Creu Milwyr*, *Creu Morwyr*, *Gwneud Gynnau*, *Adeiladu Llongau*, *Adeiladu Awyrennau*, *Hwylio’r Môr*, *Gwaith Menywod*, *Trin y Tir*, a *Trin y Clwyfedig*.

## Ysbrydoli’r Ymdrech: Printiau’r Rhyfel Byd Cyntaf

# Delfrydau

- Aeth deuddeg artist ati i greu lithograff lliw llawn yr un ar gyfer yr adran hon. Trwy gyfrwng alegorïau a symbolaeth, maent yn cyfleu nod ac amcan y rhyfel. Mae ffigyrau a ffurfiau yn cynrychioli gwledydd a chysyniadau a theitl pob darn yn cyfeirio at negeseuon cudd yn y gwaith. Mae hon yn dechneg draddodiadol sy’n boblogaidd yn y byd celf ers cyfnod y Dadeni, ond nid oedd yn ffasiynol pan gynhyrchwyd y printiau hyn. Defnyddiwyd y dechneg i gyfleu amcanion y rhyfel ac, i ryw raddau, i gyfiawnhau gwirioneddau’r rhyfel.
- Roedd rhai o’r artistiaid, gan gynnwys Brangwyn a Jackson, yn feistri ar grefft lithograffi tra bod eraill, fel Clausen a Grieffenhagen, yn defnyddio’r dechneg am y tro cyntaf. Er i lawer ganmol y prosiect, roedd eraill yn beirniadu’r delweddau am eu portread rhamantaidd o ryfel.

‘To lose sight of Britain's ultimate ideals of freedom and democratic justice is to reduce the present war to nothing less than a carnival of carnage.’ *(Burton Daily Mail,* 15 Chwefror 1918*)*

## Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf Ymdrechion

- Cyfrannodd naw artist at yr adran hon. Comisiynwyd pob un i greu chwe phrint ar un thema fel *Creu Milwyr, Gwneud Gynnau, Adeiladu Llongau* neu *Trin y Tir*.
- Fel portreadau propaganda, mae'r delweddau'n cynnig cipolwg difyr ar weithgareddau'r rhyfel ond nid ydynt yn cyfleu'r gwirionedd – erchyllterau rhyfel. Er enghraifft, mae'r ffigyrau yn *Gwaith Menywod* yn cofnodi cyfraniad hollbwysig menywod i'r ymdrech ryfel ond does dim arlliw yn y gweithiau o galedi, perygl ac undonedd y gwaith.
- Mae'r gweithiau'n amrywio'n fawr o safbwynt artistig. Mae printiau Nevinson yn fodern, yn llinellol a dramatig, delweddau Pears yn fanwl a chywir, a Rothenstein yn defnyddio lluniau syml, cynnil.
- Yr artist rhyfel mwyaf adnabyddus oedd Bone, a derbyniodd ganmoliaeth uchel gan feirniaid a gohebwyr am ei olygfeydd dramatig o'r gwaith o adeiladu llongau.

'Artists have something to say, like other men, about our country's effort and spirit in the present momentous struggle.' (*Morning Post*, 12 Gorffennaf 1917)

# Ysbrydoli’r Ymdrech: Printiau’r Rhyfel Byd Cyntaf

## Delfrydau

Artist: **William Nicholson**


Teitl: **Diwedd Rhyfel**



# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

## Ymdrechion

Artist: **Eric Kennington**
Thema: **Creu Milwyr**



Ymarfer Bidogau

# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

## Ymdrechion

Artist: **Claude Shepperson**

Thema: **Trin y Clwyfedig**




Ysbyty Gliro yn Ffrainc

# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

## Ymdrechion

Artist: **Muirhead Bone**

Thema: **Adeiladu Llongau**



Barod i Forio

# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

## Ymdrechion

Artist: **Frank Brangwyn**

Thema: **Creu Morwyr**




Ymarfer ar Long

## Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

# Ymdrechion

Artist: **George Clausen**

Thema: **Gwneud Gynnau**



Y Craen Rheiddiol

# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

## Ymdrechion

Artist: **Archibald Standish Hartrick**

Thema: **Gwaith Menywod**




Gydag Arfau: Gwaith Peryglus (pacio T.N.T.)

# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

## Ymdrechion

Artist: **Charles Pears**

Thema: **Hwylio'r Môr**




Cludo'r Milwyr

# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

## Ymdrechion

Artist: **Christopher Nevinson**

Thema: **Adeiladu Awyrennau**



Cydosod Darnau

# Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

## Ymdrechion

Artist: **William Rothenstein**

Thema: **Trin y Tir**



Aredig